

CYFARFOD:	<b>PWYLLGOR PENSIYNAU</b>
DYDDIAD:	<b>26 MEHEFIN 2023</b>
TEITL:	<b>CYNLLUN BUSNES PARTNERIAETH PENSIWN CYMRU</b>
PWRPAS:	<b>I gymeradwyo'r Cynllun Busnes</b>
ARGYMHELLIAD:	<b>CYMERADWYO'R CYNLLUN BUSNES</b>
AWDUR:	<b>DELYTH JONES-THOMAS, RHEOLWR BUDDSODDI</b>

---

## **1. CYFLWYNIAD**

Mae Partneriaeth Pensiwn Cymru wedi diweddarau ei Gynllun Busnes ac eisiau derbyn cymeradwyaeth gan y pwyllgorau unigol o fewn y bartneriaeth.

Cafodd y Cynllun Busnes ei gyflwyno i'r Cyd- Bwyllgor Llywodraethu ar gyfer cymeradwyaeth 29ain o Fawrth 2023.

## **2. CYNLLUN BUSNES**

Mae cynllun busnes Partneriaeth Pensiwn Cymru yn manylu ar sut mae'r bartneriaeth yn mynd i gyflawni ei nodau. Mae'r cynllun busnes yn cael ei fonitro'n gyson ac yn cael ei adolygu a'i gytuno'n ffurfiol bob blwyddyn. Pwrpas y cynllun busnes yw:

- Esbonio cefndir a strwythur llywodraethu'r PPC
- Amlinellu'r blaenoriaethau a'r amcanion dros y tair blynedd nesaf
- Amlinellu'r gyllideb ariannol ar gyfer cyfnod y Cynllun Busnes
- Crynhoi Buddsoddiadau ac Amcanion Perfformiad PPC

Ceir wybodaeth o safbwynt marchnata, ariannol a gweithredol, gan amlinellu'r blaenoriaethau ar gyfer y bartneriaeth yn ystod 2023- 2026 a gan sicrhau bod adnoddau'n cael eu dyrannu i gyflawni ei amcanion.

Mae'r Cynllun Busnes ynghlwm ar gyfer eich adolygiad yn Atodiad 1.

## **3. ARGYMHELLIAD**

Bod y Cynllun Busnes yn cael ei gymeradwyo.